

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk

Kevin Padley-Knight

Eich Cyf: HYCO-001

British Pipeline Agency Limited

Ein Cyf: EN070007

Dyddiad: 17 Chwefror 2023

Annwyl Syr,

Deddf Gynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 102A

Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Piblinell Carbon Deuocsid HyNet

Diolch am eich cais i'r Awdurdod Archwilio dyddiedig 07 Chwefror 2023 i ddod yn Barti â Buddiant o dan adran 102A Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd).

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gennych gyda'ch cais, mae'r Awdurdod Archwilio o'r farn eich bod o fewn un neu fwy o'r categorïau a nodir yn adran 102B. Felly, mae'r Awdurdod Archwilio wedi gofyn i mi hysbysu eich bod wedi dod yn Barti â Buddiant o dan a102(1)(ab).

Eich rhif cyfeirnod yw **HYCO-001**.

Bydd copi o'r llythyr a anfonwyd o dan Reol 6 o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010, sy'n gwahodd partïon i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn cynnwys amserlen ddrafft yr archwiliad yn cael ei gyhoeddi ddydd Llun 20 Chwefror 2023.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael yma:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/piblinell-carbon-deuocsid-hynet-north-west/>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi i gysylltu â Thîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio drwy hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk.

Yn gywir,

Jake Stephens

Jake Stephens
Rheolwr Achos

Nid yw'r ohebiaeth hon yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Gweler ein [Polisi Preifatrwydd](#) cyn anfon awybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.